**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

**AMSERIAD CYNLLUN GWELLA/LLEIHAU RISG 2013-13 YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r gofynion amser i gynhyrchu'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2012-13 a chynnig amserlen i sicrhau cydymffurfio.

## Cefndir

2 Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynlluniau Corfforaethol ar amseroedd penodol yn y flwyddyn gynllunio am nifer o flynyddoedd, yn dibynnu ar ba reolaethau oedd yn eu lle ar y pryd.

<u>Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau/Gwella</u>

3 Rhwng 1999 a 2001, dyddiad cau cyhoeddi'r cynlluniau Gwerth Gorau oedd diwedd mis Mawrth – h.y. un diwrnod cyn cychwyn y flwyddyn ariannol yr oedd y cynlluniau'n berthnasol iddi.

4 Roedd gofynion newydd rhwng 2002 a 2005 wedi symud dyddiad cau'r cyhoeddiad ymlaen i ddiwedd mis Mehefin – h.y. chwarter o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol oedd y cynlluniau'n berthnasol iddi.

5 Mae newid pellach wedi golygu fod yr Awdurdodau Tân ac Achub rhwng 2006 a 2009 yn cyhoeddi eu cynlluniau'n hwyrach fyth, erbyn diwedd mis Hydref - h.y. dros hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol oedd y cynlluniau'n berthnasol iddi.

Cynlluniau Rheoli Risg Integredig/Cynlluniau Lleihau Risg

6 Fe gyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Rheoli Risg Integredig cyntaf ym mis Ebrill 2004, gyda'r cynlluniau gweithredu blynyddol ym Mawrth 2005 a Mehefin 2006.

7 Cyhoeddwyd y Cynllun Lleihau Risg llawn nesaf ym mis Hydref 2006 (ar gyfer 2007-08) o dan ganllawiau newydd i Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig. Roedd cynlluniau gweithredu blynyddol yn dilyn ym mhob mis Hydref nes 2009, ac ar gyfer y flwyddyn i ddod bob amser.

Cynlluniau Gwella/Lleihau Risg Cyfunol

8 Yn hytrach na rhedeg dwy broses ar wahân i wella cynllunio a lleihau risg, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn cael eu hannog i fabwysiadu proses gynllunio unigol sy'n cyfuno'r ddwy elfen.

9 Erbyn 2008, roedd dyddiad cau cyhoeddi'r ddau gynllun wedi ei osod ar 31 Hydref, roedd y Cynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer y flwyddyn i ddod.

10 Newidiodd hyn yn 2010. Er bod disgwyl i'r Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi eu Cynlluniau Gwella erbyn diwedd mis Hydref, mae'r rhain ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (nid y flwyddyn gyfredol) nawr.

11 Ym mis Hydref 2010, am y tro cyntaf, cyhoeddwyd elfennau'r Cynllun Gwella a'r Cynllun Lleihau Risg bum mis o flaen y flwyddyn ariannol roeddynt yn gysylltiedig iddi.

## Cyflwyniad

12 Mae cael dyddiad cau mis Hydref ar gyfer cyhoeddi'r Cynlluniau Gwella/Lleihau Risg yn golygu nad oes modd alinio eu datblygiad yn effeithiol gyda'r gylchred cynllunio ariannol.

13 Gyda hyn mewn golwg, edrychodd swyddogion LlCC am gytundeb Gweinidogol a chyngor cyfreithiol i: a) dileu'r canllawiau CLlR presennol a sefydlu cyfernodau cryfach i leihau risg i ganllawiau cynlluniau gwella, a b) symud y dyddiad cyhoeddi ar gyfer y cynlluniau cyfunol ymlaen i fis Mawrth - cyn cychwyn y flwyddyn ariannol mae'r cynlluniau'n gysylltiedig iddi.

14 Y bwriad oedd cyflwyno’r newid yn ffurfiol yn 2012-13, gyda threfniadau dros dro ar gyfer 2011-12. Byddai hyn yn golygu fod Cynllun Cyfunol yr Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2012 yn hytrach na mis Hydref 2011.

15 Fodd bynnag, derbyniwyd cadarnhad gan swyddogion LlCC drwy e-bost ar 31 Mawrth 2011 nad oeddynt wedi gallu cael y caniatâd addas i wneud y newidiadau, ac felly byddai’r dyddiadau cau presennol yn parhau.

**Gwybodaeth**

Amserlen arfaethedig i gynhyrchu’r Cynllun Gweithredu Blynyddol 2012-13

16 Rhaid i Gynllun Lleihau Risg/Gwella nesaf yr Awdurdod ar gyfer 2012-13 gael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2011, wedi caniatáu cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos.

17 Gellir cyflawni hyn os fyddai’r ymgynghoriad ar amcanion y flwyddyn nesaf yn cychwyn ar ddiwrnod cyfarfod yr Awdurdod Tân (20 Mehefin 2011) a gorffen ar 9 Medi. Byddai’r Panel Gweithredol yn ystyried Cynllun Cyfunol drafft wedi’r ymatebion i’r ymgynghoriad ym mis Medi, ac yna’n mynd ar ddrafft terfynol ymlaen ar y 17 Hydref 2011.

**Argymhelliad**

18 Fod Aelodau’n:
(i) nodi’r cyhoeddiad annisgwyl gan swyddogion LlCC byddai dyddiad cau'r cyhoeddiad o Hydref 31 yn parhau ar gyfer 2011; a
(ii) chymeradwyo’r amserlen arfaethedig i gynhyrchu Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2013-13 yr Awdurdod.